


# Strategaeth Tegwch, Amrywiaeth a Pherthyn

2024–2027



# Rydym yn falch i rannu ein Strategaeth Tegwch, Amrywiaeth a Pherthyn 2024–2027.



Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar farn ac anghenion ein haelodau, staff a rhanddeiliaid. Cafodd y strategaeth ei chreu yn ofalus ar y cyd gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol neu wybodaeth o'r gwahaniaethu a'r anafanteision sy'n wynebu aelodau a'r cymunedau ac unigolion y maent yn gweithio gyda nhw. A chafodd ei gyfoethogi drwy ymgynghoriad gyda'n haelodau, staff a rhanddeiliaid.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys:

Ein gweledigaeth ar degwch, amrywiaeth a pherthyn	03
Rhagymadrodd gan Odeth Richardson	04
Rhagymadrodd gan Steve Ford	05
Ble rydym ni arni heddiw	06
Sut y gwnaethom ddatblygu'r strategaeth	09
Beth mae tegwch, amrywiaeth a pherthyn yn ei olygu i ni	10
Blaenoriaethau a nodau strategol ein cynllun Tegwch, Amrywiaeth a Pherthyn	11
Cynllun gweithredu ac adrodd	14

Mae ystod o fersiynau hygyrch o'n strategaeth ar gael yn [rcot.co.uk/EDBstrategy](http://rcot.co.uk/EDBstrategy)

# Ein gweledigaeth ar degwch, amrywiaeth a pherthyn

## Dyma'r hyn yr ydym yn gweithio ato.

Erbyn 2027, caiff RCOT ei gydnabod fel hyrwyddwr beiddgar a blaengar dros degwch a chyfiawnder cymdeithasol.

Rydym yn rhoi tegwch, amrywiaeth a pherthyn wrth galon popeth a wnawn. Rydym yn weithgar wrth wrthwynebu gwahaniaethu, dangos cynghreiriaeth effeithlon ac yn dryloyw ac yn atebol. Gweithiwn gydag aelodau, gwirfoddolwyr, dysgwyr, staff, partneriaid, rhanddeiliaid a'r proffesiwn ehangach i greu ymdeimlad o berthyn i'r diwylliant amrywiol, dilys a grymusol a adeiladwn gyda'n gilydd. Mae ein gwaith yn cefnogi llesiant pobl sy'n defnyddio therapi galwedigaethol ac yn cyfrannu at degwch iechyd i bawb.

# Rhagymadrodd gan Odeth Richardson



**Rwy'n credu fod gan bob aelod rôl hollbwysig i'w chwarae ac mae'n bwysig fod pawb, ac rwy'n golygu pawb, yn teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu clywed o fewn ein corff proffesiynol. Fy mlaenoriaeth yw helpu i ymgysylltu â'n holl aelodau a sicrhau bod cydraddoldeb a chynhwysiant wrth wraidd yr holl waith a wnawn i chi.**

Rwy'n hynod falch o'r ffordd rydym wedi cyd-greu ein strategaeth Tegwch, Amrywiaeth a Pherthyn. Mae wedi cael ei llunio a'i harwain gan ystod eang o leisiau a safbwyntiau ar draws y proffesiwn, gan gynnwys aelodau a chyfranwyr cyhoeddus.

Rydym ni'n dysgu o gamgymeriadau'r gorffennol a byddwn yn parhau i ddysgu, datblygu a newid ar hyd y ffordd. Efallai na fyddwn bob amser yn cael pethau'n iawn, ond byddwn yn gweithredu a byddwn yn dysgu ac addasu wrth fynd ymlaen.

Mae darparu ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar alwedigaeth, gyda'r ffocws ar yr unigolyn, wrth wraidd yr hyn a wnawn. Dim ond trwy gydnabod bod pob un ohonom yn unigryw ac yn cael ei ddylanwadu gan ein hamgylchiadau a'n profiadau y gallwn wneud hynny'n dda. Dyna pam ei bod yn hanfodol ein bod ni, fel therapyddion galwedigaethol, yn ymdrechu i ddangos arweiniad yn y maes hwn.

Credwn ein bod wedi creu strategaeth feiddgar, uchelgeisiol sy'n cydnabod yr her o ddod yn sefydliad gwrth-wahaniaethol a gwrth-hiliol, un sydd nid yn unig yn bodloni ond yn rhagori ar ein rhwymedigaethau cyfreithiol ac sy'n gweithio'n galed i gyflawni ein gwerthoedd sefydliadol a'n safonau proffesiynol.

Wrth gwrs, nid yw geiriau yn unig byth yn ddigon. Felly, byddwn yn parhau i weithio gyda'n haelodau a'n rhanddeiliaid, i gyflawni'r strategaeth hon a dal ati i ddysgu.

I ni, nid yw tegwch, amrywiaeth a pherthyn yn bethau ychwanegol dewisol sy'n effeithio ar rai pobl yn unig. Mae'r materion hyn yn effeithio ar bawb, o fewn ein proffesiwn a thu hwnt, a rydym ni i gyd yn gyfrifol.

## **Odeth Richardson**

Cadeirydd, Cyngor BAOT/RCOT

“Credwn ein bod wedi creu strategaeth feiddgar, uchelgeisiol sy'n cydnabod yr her o ddod yn sefydliad gwrth-wahaniaethol a gwrth-hiliol.”

# Rhagymadrodd gan Steve Ford



**Mae therapi galwedigaethol yn eich helpu i fyw eich bywyd gorau gartref, yn y gwaith – ac ym mhobman arall. Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu pobl o bob hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, crefydd, dosbarth a gallu i wneud y pethau y mae arnynt angen neu eisiau eu gwneud. Ac eto, fel proffesiwn, nid ydym yn adlewyrchu'r boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu.**

Mae pob profiad o hiliaeth, gwahaniaethu ac anghyfiawnder yn annerbyniol ac yn anfaddeuol. Ac eto mae ein cydweithwyr, ein haelodau a'n dysgwyr yn parhau i gael profiadau negyddol.

Mae gan bob llais hawl i gael ei glywed. Ac eto mae llawer yn ein proffesiwn yn parhau i fod heb eu clywed ac yn cael eu tangynrychioli.

Mae'n amlwg ein bod ni fel sefydliad wedi gwneud pethau'n anghywir yn y gorffennol a bod newid wedi bod yn araf i ddod. Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein rhan yn y gwahaniaethu hirsefydlog a pharhaus o fewn y proffesiwn.

Mae gennym ni ffordd bell i fynd. Efallai na fyddwn bob amser yn cael pethau'n iawn. Ond rydym wedi ymrwymo i wrth-hiliaeth a gwrth-wahaniaethu ym mhob cyd-destun.

Bydd ein strategaeth Tegwch, Amrywiaeth a Pherthyn yn ein harwain ar ein taith i greu diwylliant o ddilysrwydd a pherthyn lle mae pawb yn cael eu croesawu, eu dathlu, eu cefnogi, eu cydnabod, eu gwerthfawrogi ac yn perthyn fel eu gwir hunain. Rydw i'n falch iawn ein bod wedi'i chreu o ganlyniad i safbwyntiau a lleisiau ein haelodau, ein rhanddeiliaid a'n cydweithwyr.

Mae tegwch, amrywiaeth a pherthyn yn gyfrifoldeb i ni i gyd. Rwy'n addo hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a thegwch bob amser, i wrthwynebu gwahaniaethu a dangos cynghreiriaeth effeithol.

Gyda'n gilydd byddwn yn creu sefydliad a phroffesiwn y gallwn ni i gyd fod yn falch ohonynt.

## **Steve Ford**

Prif Weithredwr, RCOT

“ Mae gan bob llais hawl i gael ei glywed. Ac eto mae llawer yn ein proffesiwn yn parhau i fod heb eu clywed ac yn cael eu tangynrychioli.

# Ble rydym ni arni heddiw

Mae poblogaeth y Deyrnas Unedig yn amrywiol. Mae therapyddion galwedigaethol yn gweithio bob dydd gyda phobl o wahanol hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, dosbarth a gallu

Ond yn hanesyddol fel proffesiwn rydym wedi bod yn brin o amrywiaeth.



**Mae therapyddion galwedigaethol, dysgwyr, y bobl sy'n derbyn ein gwasanaethau a'n staff, yn parhau i gael profiadau negyddol. Mae yna lawer o leisiau a phrofiadau sy'n parhau heb eu clywed ac yn cael eu tangynrychioli. Mae hyn yn effeithio ar ymdeimlad pawb o berthyn, iechyd a lles.**

Yn 2020 siaradodd ein haelodau yn uwch nag erioed. Amlygodd hyn, mewn ffocws craff ac anghyfforddus, nad oeddem yn bodloni anghenion a disgwyliadau aelodau, cydweithwyr a rhanddeiliaid. Rydym yn deall ein bod wedi gwneud camgymeriadau ac wedi cymryd gormod o amser i'w cydnabod. Doedden ni ddim yn dangos yr arweinyddiaeth roedd ein haelodau'n ei haeddu. Roeddem yn araf i wrando, eirioli, gweithredu ac esblygu. Effeithiodd hyn i gyd ar yr ymddiriedaeth oedd gan ein haelodau ynom.

Yn fwy eang, mae diffyg cefnogaeth ar gyfer tegwch, amrywiaeth a pherthyn o fewn y proffesiwn. A gwyddom nad ydym yn cael ein gweld fel y man cyswllt cyntaf ar gyfer y rhai sydd angen cyngor, cymorth neu ddysgu pellach. Nid oeddem yn rhoi'r adnoddau a gwasanaethau yr oedd aelodau eu hangen. Nid ydym wedi cael ein gweld fel gweithle amrywiol ac roedd hyn yn golygu nad oeddem yn teimlo'r un mor groesawgar, cynhwysol a diogel i'n holl aelodau.

# Ble rydym ni arni heddiw

Mae pob profiad o hiliaeth, gwahaniaethu ac anghyfiawnder, o fewn a thu hwnt i'n proffesiwn, yn annerbyniol ac yn anfaddeuol. Bydd dod yn sefydliad gwrth-wahaniaethol a gwrth-hiliol, un sy'n cael ei ategu gan ein gwerthoedd sefydliadol a gwerthoedd ein proffesiwn, yn cymryd amser ac ymdrech. Bydd cyrraedd yno yn heriol, bydd angen llawer o ddysgu a newid. Ond rydym yn benderfynol. A byddwn yn cyrraedd yno trwy gydweithio â'n haelodau, gwirfoddolwyr, dysgwyr, staff, partneriaid, rhanddeiliaid a'r proffesiwn yn ehangach.

## Mae tegwch, amrywiaeth a pherthyn yn gyfrifoldeb pawb ohonom.

Nid yw'n rhywbeth 'braf ei gael' nac yn rhywbeth nad yw ond yn effeithio ar bobl o grwpiau a dangynrychiolir yn hanesyddol neu'r rhai sydd ag anghenion, hunaniaeth, cefndiroedd a phrofiadau gwahanol.

“ Mae pob profiad o hiliaeth, gwahaniaethu ac anghyfiawnder, o fewn a thu hwnt i'n proffesiwn, yn annerbyniol ac yn anfaddeuol.



# Ble rydym ni arni heddiw

**Byddwn yn ymdrechu i ragori ar ein rhwymedigaethau cyfreithiol. Gwyddom fod pob un ohonom yn unigryw a dyna pam mae ein diffiniad o amrywiaeth yn mynd y tu hwnt i'r rhai a ddiffinnir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb.**

Mae cymdeithas yn newid ac mae amrywiaeth yn cynyddu'n gyflym. Rydym angen proffesiwn sy'n ddeallus yn ddiwylliannol, sy'n adlewyrchu ac sydd wedi'i arfogi yn dda i wasanaethu a chefnogi poblogaeth gynyddol amrywiol. Mae'r strategaeth hon yn rhoi sylfaen ar gyfer hynny a bydd yn esblygu wrth i ni ddysgu ar hyd y ffordd.

Byddwn yn eiriolwyr dewr a blaengar dros degwch a chyfiawnder cymdeithasol. Byddwn yn cyflawni hyn trwy weithredoedd clir ac ystyrlon, nid dim ond geiriau.



“ Rydym  
angen proffesiwn sy'n  
ddeallus yn ddiwylliannol,  
sy'n adlewyrchu ac sydd  
wedi'i arfogi yn dda i  
wasanaethu a chefnogi  
poblogaeth gynyddol  
amrywiol.

## Ein rhwymedigaethau cyfreithiol

Mae ein rhwymedigaethau cyfreithiol wedi eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i bawb yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac mae'n amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu (uniongyrchol neu anuniongyrchol), aflonyddu ac erledigaeth.

Y dilynol yw'r nodweddion a gaiff eu gwarchod dan y Ddeddf Cydraddoldeb: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Caiff gofalwyr eu gwarchod drwy gysylltiad dan adran 13 y Ddeddf, sy'n cynnwys gwahaniaethu drwy gysylltiad.

Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn berthnasol i Ogledd Iwerddon. Yng Ngogledd Iwerddon, nid yw cyfraith cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu wedi'i chydgrynhoi yn un ddeddf unigol. Mae sawl darn o ddeddfwriaeth i gyd wedi'u hategu gan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

Sylweddolwn y disgwyliwn i'n haelodau gydymffurfio gyda pholisïau tegwch, amrywiaeth a pherthyn eu cyflogwr, a chyrrff cofrestru, yn cynnwys y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer RCOT a bydd yn sail i bolisïau a diwylliant y sefydliad. Rydym eisïau iddi ategu unrhyw fframwaith proffesiynol ehangach y mae ein haelodau yn gweithredu ynddo, a chefnogi'r proffesiwn i fod yn eiriolwyr beiddgar a blaengar o degwch a chyfiawnder.



# Sut y gwnaethom ddatblygu'r strategaeth

Mae lleisiau ein haelodau wrth galon y strategaeth hon, sy'n nodi ein blaenoriaethau ac a fydd yn llywio ein cynllun gweithredu ar gyfer 2024–2027. Cafodd ei chreu ar y cyd gan aelodau, staff a chyfranwyr cyhoeddus sydd â phrofiad uniongyrchol o neu wybodaeth am y gwahaniaethu a'r anfanteision a wynebir gan aelodau a'r bobl y darparant wasanaethau iddynt. Cafodd ei sbarduno gan eu dirnadaeth, ynghyd ag arfer gorau cyfredol, ffactorau cyfoes eraill yn cynnwys deddfwriaeth, a'n safonau proffesiynol.

Yn haf 2023 gwahoddwyd staff, aelodau a rhanddeiliaid RCOT i roi eu sylwadau ar y strategaeth ddrafft, drwy broses ymgynghori dan arweiniad Enventure, partner ymchwil annibynnol. Casglwyd ymatebion drwy arolwg ar-lein di-enw a chyfres o grwpiau ffocws. Dadansoddodd Enventure y data hwn a gwneud cyfres o argymhellion a luniodd y strategaeth derfynol. Mae crynodeb o'r adborth i'r ymgynghoriad ar gael ar y wefan.

Mae rhagor o wybodaeth am sut y gwnaethom ddatblygu'r strategaeth, ynghyd â chrynodeb o'r adborth hwn i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan.



# Beth mae tegwch, amrywiaeth a pherthyn yn ei olygu i ni

Rydym wedi dewis a diffinio ein terminoleg allweddol yn ofalus. Mae pob un o'r tri chysyniad yma yn hanfodol, felly er bod 'TAP' yn fyrfodd defnyddiol, nid ydym eisiau iddo ddod yn air diystyr na lleihau eu pwysigrwydd unigol.



## Tegwch

Mae tegwch yn cydnabod gwahaniaethau a chymhlethdod mewn amgylchiadau, profiadau ac anghenion. Mae'n golygu trin pobl yn wahanol er mwyn sicrhau tegwch drwy fod yn hyblyg ac yn ymatebol i fynediad, cyfleoedd ac adnoddau. Fel therapi galwedigaethol, mae tegwch yn ymwneud â deall a chydabod anghenion unigol. Mae'n ymwneud â phawb yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt i wneud y gorau o fywyd.

## Amrywiaeth

Rydym ni i gyd yn unigryw. Mae amrywiaeth yn golygu cydnabod, parchu, gwerthfawrogi a dathlu gwahanol anghenion, hunaniaethau, cefndiroedd, profiadau a safbwyntiau. Mae'n allweddol i chwalu rhwystrau diwylliannol a sefydliadol a meithrin diwylliant o greadigrwydd ac arloesedd.

## Perthyn

I ni, mae perthyn yn ymwneud â llawer mwy na chynnwys pobl yn unig. Mae'n golygu croesawu, dathlu, cefnogi a grymuso pob llais yn rhagweithiol, fel ein bod ni i gyd yn cael ein cydnabod yn gywir, yn cael ein gwerthfawrogi ac yn rhydd i fod yn ni ein gwir hunain.

# Blaenoriaethau a nodau strategol ein cynllun Tegwch, Amrywiaeth a Pherthyn

Mae gennym chwe blaenoriaeth strategol tegwch, amrywiaeth a pherthyn sy'n gydnaws â strategaeth sefydliadol RCOT. Caiff y blaenoriaethau hyn eu seilio ar nodau fydd yn gyrru ein gwaith.

Datblygwyd cynllun gweithredu i gyflawni'r blaenoriaethau a'r nodau hyn, gan ein galluogi i wneud cynnydd tuag at ein gweledigaeth. Mae enghraifft o'r camau gweithredu hyn ar dudalen 14. Bydd y cynllun gweithredu llawn ar gael ar ein gwefan o ddiwedd Ionawr 2024.

## Strategaeth RCOT: Ymgynraedd

Byddwn yn ymgynraedd i fod yn eiriolwyr a hyrwyddwyr beiddgar, blaengar – gan godi ein proffil a'n llais fel bod mwy o bobl yn deall pŵer yr hyn y mae therapyddion galwedigaethol yn ein wneud.

### Blaenoriaethau strategol TAP

#### Atebolrwydd ac ymrwymiad

Mae ein haelodau, staff a gwirfoddolwyr yn deall fod TAP yn gyfrifoldeb i bawb ohonom ac nad yw geiriau a bwriadau da yn ddigon.

#### Arweinyddiaeth effeithlon

Mae tîm arweinyddiaeth RCOT a'r Cyngor yn amlwg yn hyrwyddo TAP a'r strategaeth hon, yn fodel rôl i wrth-hiliaeth a gwrthwahaniaethol, gan ddangos cynghreiriaeth effeithiol.

### Nodau strategol TAP

#### Bydd RCOT yn:

- drwy ein camau gweithredu, yn gwrthwynebu gwahaniaethu, yn arddangos cynghreiriaeth effeithlon ac yn drylow ac atebol.
- yn arddangos i'r cyhoedd, ein staff, aelodau, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid fod TAP yn rhan o bwy ydym a sut ydym yn gweithio.

#### Bydd RCOT yn:

- modelu'r newid y dymunwn ei weld drwy ein diwylliant, polisiau, arferion a systemau.
- meithrin diwylliant cynhwysol, gyda iechyd a llesiant wrth ei galon, sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd sefydliadol a phroffesiynol.

# Blaenoriaethau a nodau strategol ein cynllun Tegwch, Amrywiaeth a Pherthyn

## Strategaeth RCO: Agor

Byddwn yn agor at gyfleoedd a phobl newydd – ymuno, ffurfio cynghreiriau a chael mwy o bobl i weld therapi galwedigaethol fel yr ateb i'w anghenion.

### Blaenoriaethau strategol TAP

#### Proffesiwn amrywiol a llewyrchus

Mae RCOT yn deall ac yn gweithio i ddileu rhwystrau i fynediad, i agor therapi galwedigaethol fel proffesiwn i adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn well.

### Nodau strategol TAP

#### Bydd RCOT yn:

- gweithio i sicrhau fod ein staff a gwirfoddolwyr yn adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn well.
- ymwreiddio TAP drwy ein holl safonau a pherthnasoedd gyda rhanddeiliaid.
- adeiladu cynghreiriau a phartneriaethau gyda grwpiau cymunedol i annog rhai o gymunedau sydd yn hanesyddol heb gael gwasanaeth cyfartal i weld therapi galwedigaethol fel ateb i'w hanghenion.

## Strategaeth RCOT: Codi

Byddwn yn codi pob therapydd galwedigaethol ac yn eu cefnogi i fod y gorau y gallant fod drwy gydol eu gyrfa – trwy gynnig y gymuned, yr adnoddau a'r offer gorau iddynt i'w helpu i lwyddo.

### Blaenoriaethau strategol TAP

#### Dysgu, datblygu a hyder

Mae ein haelodau, staff a gwirfoddolwyr yn hyderus a medrus wrth hyrwyddo TAP ac yn herio annhegwch, anghyfiawnder a gwahaniaethu.

### Nodau strategol TAP

#### Bydd RCOT yn:

- adeiladu dealltwriaeth ein haelodau, staff a gwirfoddolwr o degwch, amrywiaeth a pherthyn a datblygu sgiliau a hyder i wrthwynebu gwahaniaethu.
- adeiladu cynghreiriau a phartneriaethau gyda sefydliadau a grwpiau sy'n rhannu ein blaenoriaethau, i gefnogi dysgu a chynyddu ymwybyddiaeth therapyddion galwedigaethol o TAP.

# Blaenoriaethau a nodau strategol ein cynllun Tegwch, Amrywiaeth a Pherthyn

## Strategaeth RCOT: Adeiladu

Byddwn yn adeiladu ein sefydliad a'n diwylliant i ddod yn ddeinamig, yn perfformio'n dda ac yn cael ei arwain gan werthoedd, gan ddefnyddio dirnadaeth a data i'n hysbysu a'n sbarduno i gyflawni ein diben.

### Blaenoriaethau strategol TAP

#### Diwylliant diogel a chynhwysol

Mae gan RCOT ddiwylliant cynhwysol, gyda iechyd a diogelwch wrth ei galon, sy'n wirioneddol yn adlewyrchu ein gwerthoedd sefydliadol a phroffesiynol.

#### Tryloywder

Mae RCOT yn feirniadol hunanystyriol, tryloyw a bwriadol wrth gyfathrebu ein hymrwymiad i symud ymlaen gyda TAP i feithrin ymddiriedolaeth ein sefydliad.

### Nodau strategol TAP

#### Bydd RCOT yn:

- cynyddu cynrychiolaeth ac yn dathlu amrywiaeth ym mhopeth a wnawn a'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu.
- cynorthwyo ein haelodau, yn arbennig y rhai sydd yn hanesyddol ar y cyrion ac a dangynrychiolir, i fod y gorau y gallant fod, fel eu hunain gwir a dilys.

#### Bydd RCOT yn:

- rhannu a dathlu llwyddiannau a bod yn onest am fethiannau a phethau y mae angen i ni eu newid.
- deall anghenion amrywiol y rhai yr ydym yn gweithio gyda nhw, a defnyddio sylfaen tystiolaeth cryf i ddarparu cymorth adeiladol, blaenoriaethu ble a sut y gweithredwn, a mesur ein cynnydd.

# Cynllun gweithredu ac adrodd

Byddwn yn cyhoeddi cynllun gweithredu tegwch, amrywiaeth a pherthyn tair blynedd, yn rhoi manylion y camau y byddwn yn eu cymryd tuag at wireddu ein gweledigaeth, erbyn diwedd Ionawr 2024. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad effaith blynyddol ar ein cynnydd a rhoi diweddariadau rheolaidd ar ein gweithgareddau cysylltiedig â TAP yn ein cyfathrebu.

Dyma rai enghreifftiau o'r camau gweithredu yr ydym yn ymroddedig iddynt dros dai blynedd y strategaeth.

## Blaenoriaeth strategol TAP: Atebolrwydd ac ymrwymiad

### Nodau strategol TAP

Drwy ein gweithredoedd, bydd RCOT yn gwrthwynebu gwahaniaethu, arddangos cynghreiriaeth effeithiol a bod yn dryloyw ac atebol.

Bydd RCOT yn arddangos i'r cyhoedd, ein staff, aelodau, gwirfoddolwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid fod TAP yn rhan o bwy ydym a sut y gweithiwn.

### Enghreifftiau o gamau gweithredu

- Sefydlu fframwaith cefnogaeth ar gyfer staff sydd wedi profi gwahaniaethu ac aflonyddu.
- Bydd aelod o Uwch Dîm Arweinyddiaeth RCOT yn noddi pob un o'r rhwydweithiau amrywiaeth staff i hyrwyddo cynghreiriaeth a sichrau fod arweinyddiaeth yn fwy amlwg.
- Ymwreiddio egwyddorion TAP yn ein strategaeth gweithlu.

# Cynllun gweithredu ac adrodd

## Blaenoriaeth strategol TAP: Arweinyddiaeth effeithlon

### Nodau strategol

Bydd RCOT yn modelu'r newid rydym eisïau ei weld drwy ein diwylliant, polisiau, arferion a systemau.

Bydd RCOT yn meithrin diwylliant cynhwysol, gyda iechyd a Llesiant yn ganolog iddo, i adlewyrchu ein gwerthoedd sefydliadol a phroffesiynol.

### Enghreifftiau o gamau gweithredu

- Adolygu ein polisiau a phrosesau a chyflwyno proses safonol i sicrhau fod TAP wrth galon popeth a wnawn.
- Meincnodi, dynodi, addasu a mabwysiadu arferion TAP da mewn sefydliadau gofal iechyd a phroffesiynau eraill ar draws diwydiannau.
- Creu strategaeth a chynllun gweithredu lechyd a Llesiant yn defnyddio dirnadaeth o'n harolwg staff lechyd a Llesiant.

## Blaenoriaeth strategol TAP: Proffesiwn amrywiol a ffyniannus

### Nodau TAP

Bydd RCOT yn gweithio i sicrhau fod ein staff a gwirfoddolwyr yn adlewyrchu'n well amrywiaeth y Deyrnas Unedig a'r cymunedau a wasanaethant.

Bydd RCOT yn sefydlu TAP drwy ein holl safonau a pherthnasoedd gyda rhanddeiliaid.

Bydd RCOT yn adeiladu cynghreiriau a phartneriaethau gyda grwpiau cymunedol i annog y rhai sydd o gymunedau sydd yn hanesyddol heb dderbyn gwasanaeth cyfartal i weld therapi galwedigaethol fel datrysiad i'w hanghenion.

### Enghreifftiau o nodau gweithredu

- Dadansoddi data amrywiaeth ein staff a gwirfoddolwyr i ddynodi bylchau a than-gynrychiolaeth a datblygu cynllun gweithredu i'w cyfarch.
- Ymwreiddio ein egwyddorion strategaeth TAP i lywio ein safonau cyn-cofrestru a gyrfa cynnar.
- Dynodi cymunedau nad ydynt yn cael gwasanaeth cyfartal y mae ein gwirfoddolwyr yn gweithio gyda nhw, a gweithio gyda'n gwirfoddolwyr i ymchwilio rhwystrau a dynodi sut y gall RCOT gefnogi wrth eu cyfarch.

# Cynllun gweithredu ac adrodd

## Blaenoriaeth strategol TAP: Dysgu, datblygu a hyder

### Nodau TAP

Bydd RCOT yn adeiladu dealltwriaeth ein aelodau, staff a gwirfoddolwyr o degwch, amrywiaeth a pherthyn a datblygu sgiliau a hyder i fod yn rhagweithiol wrth wrthwynebu gwahaniaethu.

Bydd RCOT yn adeiladu cynghreiriau a phartneriaethau gyda sefydliadau a grwpiau sy'n rhannu ein blaenoriaethau i gefnogi dysgu a chynyddu ymwybyddiaeth therapyddion galwedigaethol o TAP.

### Enghreiffiau o gamau gweithredu

- Cynnal dadansoddiad o anghenion dysgu i ddynodi lefelau cyfredol o ymwybyddiaeth TAP ymysg staff yn cynnwys uwch arweinwyr.
- Datblygu pecyn cymorth gwahaniaethu, cynghreiriaeth ac eiriolaeth ar gyfer aelodau, gwirfoddolwyr a staff.
- Dynodi cyrff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n rhannu blaenoriaethau TAP cyffelyb a gweithio i ffurfio partneriaethau cydweithio i rannu adnoddau ac arbenigedd.

## Blaenoriaeth strategol TAP: Diwylliant diogel a chynhwysol

### Nodau TAP

Bydd RCOT yn cynyddu cynrychiolaeth a dathlu amrywiaeth ym mhopeth a wnawn a sut ydym yn cyfathrebu.

Bydd RCOT yn cynorthwyo ein haelodau, yn arbennig y rhai o gymunedau sydd yn hanesyddol ar y cyrion ac wedi eu tangynrychioli, i fod y gorau y gallant fod, fel eu gwir hunain ar hyd eu gyrfa.

### Enghreiffiau o gamau gweithredu

- Gweithio'n rhagweithiol i gynyddu nifer y cyfranwyr cyhoeddus o grwpiau amrywiol ac a dangynrychiolir i gefnogi ein gwaith yn y ffordd orau.
- Trefnu cyfarfodydd TAP chwarterol i rannu arfer da ymysg aelodau, gan arddangos cynghreiriaeth a a chynnig cymorth tebyg i'w debyg.



# Cynllun gweithredu ac adrodd

## Blaenoriaeth strategol TAP: Tryloywder

### Nodau TAP

Bydd RCOT yn rhannu a dathlu llwyddiannau a bod yn onest am fethiannau a'r pethau sydd angen i ni newid.

Bydd RCOT yn deall anghenion amrywiol y rhai yr ydym yn gweithio gyda nhw, a defnyddio sylfaen tystiolaeth cryf i roi cymorth adeiladol, blaenoriaethu lle a sut ydym yn gweithredu, a mesur ein cynnydd.

### Engbreiffiau o gamau gweithredu

- Rhannu'r strategaeth hon, ei diben, camau gweithredu ac atebolrwydd yn eang ymysg aelodau, staff a rhanddeiliaid.
- Hyrwyddo a rhannu diweddariadau ar gyflenwi gwaith TAP i bob aelod a rhanddeiliad.
- Ailddylunio ein proses ar gyfer casglu nodweddion amrywiaeth fel y gallwn gasglu data llinell sylfaen a monitro amrywiaeth o fewn ein aelodaeth.

## I gefnogi'r strategaeth hon, ar ein gwefan gallwch hefyd ganfod:

- ystod o fersiynau hygyrch o'n strategaeth
- sut y gwnaethom ddatblygu'r strategaeth
- crynodeb o argymhellion yr ymgynghoriad
- cwestiynau cyffredin

Os ydych angen mwy o help, anfonwch e-bost atom yn: [yourviews@rcot.co.uk](mailto:yourviews@rcot.co.uk)

[rcot.co.uk/EDBstrategy](https://rcot.co.uk/EDBstrategy)



RCOT, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol ydyn ni. Rydym wedi hyrwyddo'r proffesiwn a'r bobl tu cefn iddo am dros 90 mlynedd a heddiw, rydym yn ffynnu gyda dros 36,000 o aelodau.

Bryd hynny a nawr, rydym yma i helpu sicrhau datblygiadau sy'n newid bywydau ar gyfer ein haelodau ar gyfer y bobl a gefnogwn a chymdeithas yn gyffredinol.

**rcot.co.uk**

© 2023 Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol. Elusen wedi cofrestru yn Lloegr a Chymru (Rhif 275119) ac yn yr Alban (Rhif SCO39573) a chwmni wedi cofrestru yn Lloegr (Rhif 1347374)